OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 544 (Cy. 121)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Ebrill 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *11 Ebrill 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *5 Mai 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 217, 319B a 323A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), adran 88E o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**2**) ac adran 21B o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1990 p. 8. Diwygiwyd adran 217 gan adran 48(1) i (6) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) ("Deddf 2015"). Mewnosodwyd adran 319B gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/2773 (Cy. 280)). Mewnosodwyd adran 323A gan adran 50 o Ddeddf 2015. Cymhwyswyd adran 323A i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf 2015 ac i Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 gan baragraff 25 o Atodlen 5 i Ddeddf 2015.

(**2**) 1990 p. 9. Mewnosodwyd adran 88E gan O.S. 2014/2773 (Cy. 280).

(**3**) 1990 p. 10. Mewnosodwyd adran 21B gan O.S. 2014/2773 (Cy. 280).